

**Crynodeb ac argymhellion**  
**yn dilyn arolwg Llwybrau**  
**cyhoeddus Y Felinheli**  
**2020**

**Llyr Evans, Emyr Gareth, Dafydd Gethin Huws, Nerys John,**

Gwnaed yr arolwg hwn yn dilyn ac yn ystod y cyfnod Clô pandemig COVID-19. Gwnaed defnydd helaeth o'r llwybrau gan drigolion y pentref yn ystod y cyfnod ac fellu rhaid ystyried bod unrhyw nodyn o or-dyfiant yn yr adroddiad hwn o bwys ac angen sylw. Dan amgylchiadau arferol buasai gordyfiant wedi bod llawer gwaeth gyda llai o ddefnydd o'r llwybrau. Erbyn cyhoeddiad yr adroddiad hwn, mae y contracter wedi torri y tyfiant i'r llwybrau sydd wedi eu nodi fel rhan o'i contract. Ymddengus nad yw y rhestr yn gyflawn a bod angen ychwanegu rhai ardaloedd i'r rhestr. Bydd angen amcangôst ar gyfer y Gwaith hyn gan y contractwr ac ychwanegu'r gwaith hwn ar gyfer cytundebau gwaith yn y dyfodol.

Mae materion ac argymhellion o adroddiad y flwyddyn diwethaf wedi cael eu cynnwys mewn glas oherwydd nad yw y broblem wedi ei ddatrus neu ei fod ond yn rhannol wedi ei ddatrus. Y nôd felly fydd i geisio sicrhau bod yna camau yn cael eu cymeryd i ddatrus rhai o'r problemau yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Cydnabyddir yn yr adroddiad bod rhai o'r argymhellion yn fater o ddiogelwch i'r cyhoedd a felly o bwysigrwydd sylweddol. Fe nodir rhain yn y fan hyn ac o fewn yr adroddiad mewn coch.

### Diogelwch

**Mae angen trafodaeth brys gyda Cyngor Gwynedd ynghylch materion a all achosi niwed i'r cyhoedd ar y llwybrau canlynol:**

- **Llwybyr Afon Heulyn (llwybyr 22)**
- **Bryn y Waen i Penscoins (llwybyr 23b)**
- **Bryn y Waen i ben ucha'r Inclein (llwybyr 23a)**
- **Brynffynnon i'r Lon Bôt (llwybrau 16 ac 17)**

Mae patrymau clir i sut buasai modd datrus rhai eraill o'r argymhellion a fe roddir crynodeb o rhain ar ddiwedd yr adroddiad.

Mae sawl trefniant i godi sbwriel wedi cael ei drefnu gan Cyngorydd Cymuned, Casi Roberts yn ystod y flwyddyn. Nid yw hyn wedi bod yn bosib yn ystod y cyfnod clô. Rydym yn ymwybodol bod nifer o wirfoddolwyr wedi bod yn codi sbwriel yn unigol a mae hyn yn gwneud gwahaniaeth. Cafwyd cefnogaeth gan swyddog prosiect Gwynedd (Cadw Cymru'n Daclus) i godi sbwriel o ardal yr afon yng Ngherrig yr Afon.

### **Categori 1**

*Llwybrau sydd yn caniatáu symydiaidau unigolion. Mae y rhain gyda defnydd arwyddocaol neu yn creu doleno fewn y pentref gyda adnoddau teithio cyhoeddus, meysydd parcio ac atyniadau lleol.*

### **Categori 2**

*Llwybrau boblogaidd sydd yn cael eu defnyddio er mwynhad. Maent yn cynnwys llwybrau o gwmpas y gymuned, cylch-deithiau, neu mynediad i draethau.*

### **Categori 3**

*Llwybrau sydd efallai yn cael eu defnyddio yn llai aml ond yn hanfodol bwysig ar gyfer cysylltu llwybrau yng nghategori 1 a 2*

### **Categori 4**

*Llwybrau sydd yn cael eu defnyddio yn achlysurol ond yn parhau i chwarae rhan i greu rhwydwaith lawn ac effeithiol. Maent yn gallu cynnwys dolenni arfaethedig rhwng cymunedau lle nad oes llawer yn bodoli yn bresennol i annog pobl i gerdded.*

### **Categori 5**

*Llwybrau lle nad oes manteision na photensial amlwg am eu defnyddio a lle mae modd defnyddio llwybyr arall mewn categori uwch.*

Rhif y llwybyr	Categori	<u>Crynodeb o arolwg Llwybrau cyhoeddus Y Felinheli 2019</u>	Dyddiad yr arolwg	Archwilwyd gan	Pethau a nodwyd	Gweithredu
1	1	<b>Llwybr Penrallt</b>  Londis i Penrallt	1/7/20	EG	<i>Dim Arwydd o Penybryn</i>  <i>Diffyg arwydd oddi ar ffordd Pen y Bryn felly y Llwybr ddim yn amlwg (angen dilyn mynedfa i dŷ preifat). Mae yna arwydd ar Ffordd Caernarfon ond nid yw hyn yn ddigonol. Dim arwydd lle mae'r llwybr yn gadael lôn mynediad Fferm Penrallt er, mae cyfeiriad y llwybr yn eitha amlwg.</i>	<i>Clerc i gysylltu efo CG ynghylch cael arwydd. Trafodwyd hyn mewn cyfarfod efo Cyngor Gwynedd ar 9/10/18</i>  <i>Gweler argymhellion 2019</i>
2	1	<b>Penrallt</b>  O fferm Penrallt drosodd i rhes tai Penrallt	1/7/20	EG	<i>Tyfiant fel mae'r llwybyr yn cyrraedd Tai Penrallt</i>  <i>Arwydd ddim yn amlwg ar waelod fferm penrallt tuag at y tai.</i>  <i>Giatiau yn hen ac angen eu hadnewyddu</i>  <i>Yr arwydd i'r llwybr o lwybr rhif 1 wedi ei ddifrodi ond yn dal yn weladwy</i>  <i>Cyfeiriad y llwybr ddim yn hollol amlwg wrth symud o un cae i'r llall – posib cael saethau i farcio'r llwybr yn gliriach?</i>	<i>Contractwr am fod yn torri tyfiant cyn diwedd Hydref.</i>  <i>Clerc i gysylltu efo CG ynghylch cael arwydd ac adnewyddu y giatiau. Trafodwyd hyn mewn cyfarfod efo Cyngor Gwynedd ar 9/10/18</i>  <i>Angen trafod yr arwyddo efo Cyngor Gwynedd eto.</i>
3	2	<b>Pant yr Afallen</b>  Pant yr Afallen i Lon Llwyn	6/8/20	DH	<i>Dim arwyddion felly methu dweud ble mae'r llwybr yn dechrau o Ffordd Llwyn. Mae giât yn mynd i fewn i'r cae ond mae gwartheg, tarw a lloi yn y cae.</i>  <i>Dim arwyddion</i>  <i>Dim giatiau addas i gerddwyr.</i>	<i>Clerc i gysylltu efo CG Gwynedd. Trafodwyd y pwyntiau hyn mewn cyfarfod efo Cyngor Gwynedd ar 9/10/18:</i>  <ul style="list-style-type: none"><li><i>• Am mynedfa addas i gerddwyr i fynd i mewn i'r cae.</i></li><li><i>• am arwyddion</i></li><li><i>• am arwydd posib i ddweud am yr anifeiliaid yn y cae.</i></li></ul> <i>Gweler argymhellion 2019</i>

4	1	<p><b>Allt Gam</b></p> <p><i>Pen-y-bryn i Gwylan Uchaf</i></p>	9/8/20	EG	<p><i>Lot fawr o dyfiant</i></p> <p><i>Ychydig o sbwriel</i></p> <p><i>Tyfiant gormodol gan gynnwys dail-poethion, yn arbennig ar ddau ben y llwybr – gwneud hi’n anodd / amhleserus i ddefnyddio’r llwybr</i></p> <p><i>Rhywfaint o sbwriel</i></p> <p><i>Yr arwydd i’r llwybr o Gwylan Uchaf yn anodd iawn i’w weld – tu ôl canghennau coeden.</i></p> <p><i>Grisiau mewn cyflwr drwg – llawer o’r grisiau concrit wedi torri ac yn beryg baglu.</i></p>	<p><i>Contractwr am fod yn torri tyfiant cyn diwedd Hydref.</i></p> <p>Angen trafodaeth efo Cyngor Gwynedd parthed y grisiau, a’r arwydd. Contractwr yn torri’r tyfiant cyn yr Hydref.</p>
5	2	<p><b>Bush Farm – Bonc via Bodandreg</b></p> <p><i>Fferm Bush i Bonc heibio Bodandreg</i></p>	30/8/20	NJ	<p><i>Dim mynediad o Lon Llwyn. Mae’r arwydd a’r gamfa yn glir, ond gormod o dyfiant yn dilyn.</i></p> <p><i>Tyfiant mawr rhwng Lon Llwyn a’r 2il gamfa, tua 300m lawr y ffordd osgoi.</i></p> <p><i>Llawer o dyfiant ar yr 2il gamfa, amhosib i basio.</i></p> <p><i>Y ffordd osgoi a pheth sbwriel, ond yn dda iawn i ystyried.</i></p> <p><i>Clir o Fodandreg ymlaen.</i></p> <p><i>Anifeiliaid yn y cae.</i></p> <p><i>Arwyddo yn dda heblaw am pen Bonc. Angen arwydd ychwanegol i dynnu sylw wrth y ffordd i droi i’r chwith am Bodandreg o Bonc.</i></p> <p><i>Dim problem gordyfiant.</i></p> <p><i>Giat ar ddiwedd y cae cynta yn mynd am Bodandreg – cafn bwydo wrth y giat yn golygu bod y tir wedi ei droi gan anifeiliaid ac yn hynod o fwdlud.</i></p> <p><i>Y giat wedi ei gloi efo padlock.</i></p>	<p><i>Contractwr am fod yn torri tyfiant cyn diwedd Hydref.</i></p> <p><i>Arwydd i rybuddio y cyhoedd am yr anifeiliaid yn y cae.</i></p> <p><i>Diweddarau Cyngor Gwynedd bod clo ar y giat. Mynediad yn creu ansicrwydd i gerddwyr oherwydd bod yna darw yn y cae.</i></p> <p><i>Clerc i gysylltu efo’r adran Prifffyrdd i weld am gwneud y rhan o’r llwybr wrth ochor y ffordd yn ddiogel.</i></p>

				<p>Arwydd rhybydd am darw yn y cae ar y giat.</p> <p>Yr ail gae yn mynd am Fodandreg. Tarw ifanc a gwartheg yn y cae.</p> <p>Cwn yn cyfarth wrth fynd drwy buarth y fferm ym Modandreg ond roeddau nhw wedi eu cau i ffwrdd.</p> <p>Amhosib cerdded y llwybyr rhwng y ffordd osgoi a fferm Bush. Y gamfa a'r ardal rhwng Lon Bush a'r ffordd osgoi wedi ei dorri (gan yr adran brif-ffyrdd baswn yn tybio)Wal o ddrain ar beth sydd yn lwybyr i fod.</p> <p>Problem wedyn gorfod cerdded ar hyd y ffordd osgoi heb unrhyw 'barrier i warchod cerddwyr.</p>	
6	2	<p><b>Bodandreg Covert</b></p> <p><i>Bodandreg i Lon Llwyn</i></p>		<p><i>Yr arwydd ar Lon Llwyn yn pydru mewn dau le. Bydd angen un newydd yn fuan</i></p> <p>Yr arwydd ddim wedi ei adnewyddu.</p>	<p><i>Y Clerc i roi gwybod i Cyngor Gwynedd am yr arwydd</i></p> <p><i>Argymhellion 2019 yn dal i sefyll</i></p>
7	2	<p><b>Bodandreg-Wern Isaf, Bethel</b></p>		<p><i>Llwybr byr o Fodandreg ar hyd cae. at y ffin efo Llanddeiniolen</i></p> <p><i>Ychydig o fwd ger y giat ochor Bethel. Posib gwaethgu yn y gaeaf.</i></p> <p>Dim problemau gordyfiant ochor Bodandreg.</p> <p>Arwyddo yn iawn ond dim by di ddangos y ffordd unwaith mae cerddwyr yn cyrraedd Wern Isaf o gyfeiriad Bodandreg.</p>	<p><i>Y clerc i holi Llanddeiniolen sut mae pen Bethel o'r llwybyr.</i></p> <p><i>Angen trafod yr arwyddo efo Cyngor Gwynedd eto.</i></p>

8	1	Cerrig yr Afon	7/8/20	NJ	<p><i>Sbwriel yn yr afon</i></p> <p><i>Gitiau lle mae'r anifeiliaid yn dod at yr afon – dim yn siwr os ydi rhain wedi cael y sylw a soniwyd amdano.</i></p> <p><i>Angen sylw ar y ffensio mewn cwpwl o manau.</i></p> <p><i>Tyfiant o'r tir gwyllt pen Ffordd Tafarngrisiau yn dod trwodd i'r llwybyr</i></p> <p><i><u>Sbwriel</u>. Cafwyd trefniant efo perchnogion y tir a Daniel Griffith o 'Cadw Cymru'n daclus'. Cliriwyd y sbwriel o ardal yr Afon ym mis Chwefror. Mae yna ychydig yna eto.</i></p> <p><i><u>Stanciau</u> - Mae y stanciau sydd wedi pydru dal yn broblem. Mae yna o leiaf 5 angen eu hadnewyddu. Mae'r ffens wedi ei blygu mewn manau lle mae pobol/plant wedi ceisio mynd trwodd at yr afon.</i></p> <p><i><u>Tyfiant</u> - Mae'r contractwr wedi torri y tyfiant rhwng Ffordd Tafarngrisiau a'r giat cyntaf ond mae drain rwan yn tyfu ar draws y llwybyr y ddwy ochor. Mae canghennau coed yn dechrau tyfu yn isel ar draws y llwybyr.</i></p> <p><i>Gwyneb -mae y cerrig man a osodwyd yn wreiddiol wedi golchi i ffwrdd mewn manau a mae'r llwybyr yn fwdlyd.</i></p> <p><i><u>Arwyddo</u> – Reit dda ond mae angen arwydd wrth y Ffordd fawr dim yn nodi yn llwybyr am gyfeiriad Ffordd Tafarngrisiau.</i></p>	<p><i>Y Clerc i drefnu cyfarfod gyda perchenog y tir lle mae'r afon - gweld os medrwn ni gyd weithio ar glirio y sbwriel.</i></p> <p><i>Y clerc i holi am gael pris i ail osod stanciau Newydd ar gyfer y ffens.</i></p> <p><i>Y clerc i ddiweddarau efo'r ffermwr ynghylch y giatiau ar draws yr afon.</i></p> <p><i>Mae'r contractwr yn torri y tyfiant rhwng ffordd Tafarngrisiau a'r giat cyntaf'. Clerc y Cyngor i ychwanegu hwn i'r rhestr gwaith y contractwr gan nad yw wedi cynnwys ar hyn o'r bryd.</i></p> <p><i><u>Sbwriel</u> – mae angen rhyw fath o fynediad trwy'r ffens i alluogi gwirfoddolwyr i gallu casglu y sbwriel.</i></p> <p><i><u>Stanciau</u> Y clerc i holi am gael pris i ail osod stanciau Newydd ar gyfer y ffens.</i></p> <p><i><u>Tyfiant</u> – Angen ail edrych ar rhestr Gwaith y contractwr er mwyn cadw y tyfiant rhag gau i mewn.</i></p> <p><i><u>Gwyneb</u> – Angen gweld pwy sydd yn gyfrifol a gweithio tua cael gosod rhywfaint o gerrig man / llechi ar y wyneb.</i></p>
9	2	<p><b>Bonc-Bethel</b></p> <p><i>Bonc i Bethel</i></p>	7/8/20	NJ	<p><i>Dim arwydd wrth ymyl giat mochyn Bonc</i></p> <p><i>Weiren bigog ar draws y llwybyr pen Bethel.</i></p>	<p><i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd par Arwyddo.</i></p> <p><i>Trafodwyd hyn mewn cyfarfod efo Cyngor Gwynedd ar 9/10/18</i></p> <p><i>Y clerc i drefnu cyfarfod rhwng</i></p>

					<p><i>Tyfiant helaeth ar draws y llwybyr pen Bethel sydd yn gorfodi cerddwyr i gymeryd ffordd arall. Dim arwyddion wrth giat mochyn wrth Tan y Buarth, Bethel.</i></p> <p><i>Dim arwydd wrth ymyl giat mochyn Bonc</i></p> <p><i>Angen arwydd hefyd wrth y giat mochyn sydd ar y ffin rhwng cae olaf Y Felinheli a chae cynta Llanddeiniolen.</i></p> <p><i>Weiren bigog ar draws y llwybyr pen Bethel.</i></p> <p><i>Tyfiant helaeth ar draws y llwybyr pen Bethel sydd yn gorfodi cerddwyr i gymeryd ffordd arall.</i></p>	<p><i>aelodau o'r is-grwp a Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.</i></p> <p><i>Argymhellion 2019 yn dal i sefyll.</i></p>
10	2	<b>Tan-y-maes - Carreg Goch</b> Tan-y-maes i Carreg Goch		NJ	<p><i>LLwybyr yn parhau wedi ei restru ond dim modd ei ddefnyddio.</i></p> <p><i>Dim newid ers 2019</i></p>	<p><i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch y mater. Cyngor Gwynedd wedi cytuno (mewn cyfarfod 9/10/18) i drafod efo'r perchenog tir.</i></p> <p><i>Argymhellion 2019 yn dal i sefyll.</i></p>
11	2	<b>Carreg Goch - Crug Road</b>  Carreg Goch i Ffordd Crug		NJ	<p><i>LLwybyr yn parhau wedi ei restru ond dim modd ei ddefnyddio</i></p> <p><i>Dim newid ers 2019</i></p>	<p><i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch y mater Cyngor Gwynedd wedi cytuno (mewn cyfarfod 9/10/18) i dtrafod efo perchenog y tir</i></p> <p><i>Argymhellion 2019 yn dal i sefyll.</i></p>
12	2	<b>Crug Road – Bethel West</b>  Ffordd Crug i'r Gorllewin o Carreg Goch i Bethel		NJ	<p><i>LLwybyr yn parhau wedi ei restru ond dim modd ei ddefnyddio</i></p> <p><i>Dim newid ers 2019</i></p>	<p><i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch y mater Cyngor Gwynedd wedi cytuno (mewn cyfarfod 9/10/18) i drafod efo perchenog y tir</i></p> <p><i>Argymhellion 2019 yn dal i sefyll.</i></p>
13	2	<b>Carreg Goch - Bethel West</b>  Carreg Goch i		NJ	<p><i>LLwybyr yn parhau wedi ei restru ond dim modd ei ddefnyddio</i></p> <p><i>Dim newid ers 2019</i></p>	<p><i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch y mater Cyngor Gwynedd wedi cytuno mewn cyfarfod 9/10/18) i drafod</i></p>



		<i>Bethel</i>				<i>efo perchenog y tir</i> <i>Argymhellion 2019 yn dal i sefyll.</i>
<b>14</b>	<b>2</b>	<b>Bryn Cottages</b>  <i>Bryn Cottages i Bethel</i>	<i>7/8/20</i>	<i>NJ</i>	<i>Cymdeithas y cerddwyr wedi gwneud gwaith sylweddol ar giataiau, arwyddion a thorri tyfiant.</i>  <i>Yn anffodus, tyfiant newydd yn amharu ar gerdded y llwybyr pen Bethel.</i>  <i>Pen Y Felinheli gor-dyfiant yn amharu ychydig o gwmpas y giat mochyn cyntaf wrth Bryn Cottages ac ar ffin ddiwedd y cae cyntaf.</i>  <i>Cymysgedd o raff wedi ei glymu, tyfiant a weiren bigog yn gwneud hi yn amhosib i agor y giat mochyn wrth y ffordd.</i>  <i>Y bronblem efo'r giat wedi ei glymu wedi ei ddatrus.</i>  <i>Tyfiant o gwmpas y ddwy giat mochyn pen Y Felinheli.</i>  <i>Tyfiant a coeden wedi disgyn pen Llanddeiniolen/ Bethel</i>	<i>Contractwr am fod yn torri tyfiant cyn diwedd Hydref.</i>  <i>Y clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch mynediad drwy y giat mochyn wrth ymyl y ffordd.</i>  <i>Y clerc i drefnu cyfarfod rhwng aelodau o'r is-grwp a Cyngor Cymuned Llanddeiniolen</i>  <i>Y clerc i drefnu cyfarfod rhwng aelodau o'r is-grwp a Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.</i>  <i>Contractwr am fod yn torri tyfiant cyn diwedd Hydref</i>
<b>15</b>	<b>3</b>	<b>Crug Road – Plas Llanfair</b>  <i>Ffordd Crug i'r gorllewin o Carreg Goch i Plas Llanfair</i>	<i>7/8/20</i>	<i>NJ</i>	<i>Llai o dyfiant a'r toriad ychwanegol wedi gwella y sefyllfa.</i>  <i>Tyfiant Newydd angen sylw yn enwedig o gwmpas y giataiau mochyn wrth ffordd Crug a rhwng y 2 gae.</i>  <i>Cyngor Gwynedd wedi gosod arwydd Newydd.</i>  <i>Tyfiant-Yn reit ddrwg erbyn hyn er iddo gael ei dorri ym mis Mehefin.</i>  <i>Coeden wedi tyfu dros yr arwydd ar y ffordd osgoi.</i>	<i>Contractwr am fod yn torri tyfiant cyn diwedd Hydref.</i>  <i>Yn yr achos hyn angen trafod os yw'r Cyngor Cymuned am drefnu un torriad ychwanegol yn ystod y tymor. Toriad ychwanegol dechrau Awst?</i>  <i>Cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am y tyfiant coed o gwmpas cychwyn y llwybyr ar y ffordd osgoi.</i>
<b>16</b>	<b>1</b>	<b>Pistyll Brynfynnon</b>  <i>Brynfynnon Road</i>	<i>12/8/20</i>	<i>LIE</i>	<i>Arwydd newydd wedi ei osod gan Cyngor Gwynedd wrth y lon bost.</i>	<i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch y materion hyn.</i>

		to Caernarfon Road west			<p><i>Dim canllaw wedi ei osod lle mae'r ty newydd wedi ei godi.</i></p> <p><i>Canllaw peryglus wedi rhydu pen Brynffynnon. (nodwyd hyn yn adroddiad 2016 a 2017hefyd) Cyngor Gwynedd wedi cytuno (cyfarfod 9/10/18) i brisio a pharatoi canllaw newydd yn y flwyddyn ariannol hon.</i></p> <p><i>Ychydig o dyfiant.</i></p> <p><i>Dipyn o sbwriel.</i></p> <p><i>Arwynebedd ddim yn gret.</i></p> <p><b>Problemau efo'r canllaw yn parhau. Gorchudd dros dro wedi ei osod yn y man gwaethaf – hyn wedi ei wneud ers nifer o fisoedd.</b></p> <p><i>Gordyfiant.</i></p> <p><i>Sbwriel</i></p> <p><b>Gwyneb yn anwastad. Stepiau llechi yn llithrig mewn tywydd gwlyb.</b></p>	<p><i>Cyngor Gwynedd wedi cytuno mewn cyfarfod 9/10/18 i :</i></p> <p><i>1.trafod efo perchennog 27 Brynffynnon i godi canllaw wrth yr adeilad newydd.</i></p> <p><i>2.Adnewyddu'r canllaw sydd wedi rhydu</i></p> <p><i>Mae angen gwella arwynebedd. (deallir gan y contractwr mai yr adran briffyrdd sydd wedi gofalu am y llwybyr hwn) Clerc i holi.</i></p> <p><i>Contractwr am dorri tyfiant cyn diwedd Hydref.</i></p> <p><i>Glanhau'r sbwriel.</i></p> <p><i>Gweler argymhellion 2019.</i></p> <p><b>Angen trafod datrusiad parhaol parthed y canllaw a'r arwynebedd gyda Cyngor Gwynedd</b></p>
17	1	<p><b>Stepiau Tai Railings</b></p> <p><i>Ffordd Brynffynnon i Ffordd Caernarfon dwyrain</i></p>	12/8/20	LIE	<p><i>Ychydig o dyfiant</i></p> <p><b>Canllaw yn rhydd ar dop a gwaelod y llwybr.</b></p> <p><i>Gordyfiant bler</i></p> <p><i>Gwyneb Anwastad</i></p>	<p><i>Contractwr am dorri tyfiant cyn diwedd Hydref.</i></p> <p><b>Angen trafod datrusiad parhaol parthed y canllaw a'r arwynebedd gyda Cyngor Gwynedd</b></p> <p><i>Contractwr am dorri tyfiant cyn yr Hydref.</i></p>
18	1	<p><b>Stepiau Dinas</b></p> <p><i>Ffordd Caernarfon i Lan Mor</i></p>	12/8/20	LIE	<p><i>Ychydig o sbwriel</i></p> <p><i>Arwynebedd Angen gwaith efallai.</i></p> <p><i>Gordyfiant</i></p> <p><i>Ychydig o sbwriel</i></p> <p><i>Arwydd ar y gwaelod yn colli ei liw ('fade-io')</i></p>	<p><i>Glanhau'r sbwriel.</i></p> <p><i>Y clerc i holi CG ynghylch gwella yr arwynebedd.</i></p> <p><i>Angen cynnwys torri'r tyfiant ar y llwybyr yma ar restr y contractwr.</i></p> <p><i>Angen trafod yr arwyddo efo Cyngor Gwynedd eto.</i></p>

19	2	<p><b>Plas Llanfair/Llanfair Woods</b></p> <p>Groeslon Cottage i Plas Llanfair i Goed Llanfair i Lon Las Menai</p>	3/6/20	NJ	<p><i>Wedi ei gau dros dro (Gwaith ffordd osgoi Bontnewydd)</i></p> <p><i>Tan Chwefror 2020</i></p> <p>Gyrrwyd ebost 3ydd Mehefin yn nodi bod y rhan o'r llwybyr sydd ddim yn gysylliedig â'r Gwaith ar y ffordd Newydd angen sylw.</p> <p>Angen sylw ar Arwyddo, hawliau Mynedfa a thyfiant.</p> <p>Disgwyl am ymateb gan Cyngor Gwynedd.</p>	Y Clerc i ofyn i Gyngor Gwynedd ymateb i'r ebost o fis Mehefin.
20	3	<p><b>Plas Llanfair Farm</b></p> <p>Fferm Plas Llanfair i Lon Las Menai</p>	3/6/20	NJ	<p><i>LLwybyr yn parhau wedi ei restru ond dim modd ei ddefnyddio</i></p> <p>Mae y Lon Las yn rhedeg ochor yn ochor a'r llwybyr yma – fellu nid yw o flaenoriaeth.</p>	Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch y mater Cyngor Gwynedd wedi cytuno (mewn cyfarfod 9/10/18) i drafod efo perchenog y tir
21	1	<p><b>Rear Bangor Street</b></p> <p>Stryd PenCeunant i gefnau Stryd Bangor</p>	12/8/20	LIE	<p><i>Ychydig o ddalon pethion ar yr ochor</i></p> <p><i>Graffiti anweddus</i></p> <p>Graffiti anweddus dal yna</p> <p>Gordyfiant yn ddifrifoli lawr am Stryd Snowdon (Pen Ceunant)</p>	<p>Angen gweld os oes modd cael gwared ar y graffiti</p> <p>Dal angen trefnu i cael gwared ar y graffiti.</p> <p>Angen cynnwys torri'r tyfiant ar y llwybyr yma ar restr y contractwr.</p>
22	1	<p><b>Afon Heulyn</b></p> <p>Nant Adda i'r Fenai</p>	9/8/20	EG	<p><i>Tyfiant sylweddol rhwng Ty NantAdda a'r Lon a hefyd ar y rhan sydd yn osgoi y ty.</i></p> <p><i>Dipyn o sbwriel.</i></p> <p><i>Dim arwydd pellach wrth y 'dry dock' i ddangos bod y llwybyr yn mynd ar hyd lan yr afon.</i></p> <p><i>Dim arwydd ar ochor y marina</i></p> <p><i>Ffens wrth rwbol wal Y Faenol wedi ei blygu lawr ac angen ei</i></p>	<p>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch yr arwyddo. Trafodwyd y mater mewn cyfarfod 9/10/18</p> <p>Y Clerc i holi pwy sydd yn gyfrifol am adnewyddu'r ffens ac i drefnu bod atgyweirio yn cymeryd lle.</p> <p>NJ wedi trafod torri y tyfiant wirth Nant Adda a wedi deall bod popeth yn iawn i'r contractwr dorri y tyfiant wrth</p>

					<p><i>atgyweirio.</i></p> <p><i>Arwyddo eitha clir o Ffordd Bangor a heibio Nant Adda. Dim arwydd / saeth cyfeiriad wrth Bwthyn y Marina / Bwthyn y Cei. Dim arwydd wrth ymyl y bont ger La Marina – arwyddion yn cyfeirio ar y Llwybr Arfordirol drwy'r Marina ond ddim y Llwybr cyhoeddus ar lan yr Afon Heulyn</i></p> <p><b><i>Wal y Faenol mewn cyflwr peryglus. Y llechi 'coping' ar dop y wal wedi disgyn mewn manau ac yn beryg o ddisgyn mewn amryw o fannau eraill. Tyfiant ar ben a thu ôl i'r wal mewn peryg o wthio mwy o'r llechi i'r llwybr – cwmp o 3m fyddai'n ddigon i achosi anaf drwg neu waeth***</i></b></p> <p><i>Y ffens ble mae wal y Faenol wedi disgyn mewn cyflwr drwg. Hefyd y ffens ger diwedd y bont lechen hefyd wedi disgyn mewn llifogydd.</i></p> <p><i><a href="https://www.rightmove.co.uk/commercial-property-for-sale/property-71602989.html">https://www.rightmove.co.uk/commercial-property-for-sale/property-71602989.html</a></i></p> <p><i>Yr hysbyseb yma yn awgrymu bydd y safle ger diwedd y llwybr yn cael ei ddatblygu ar gyfer tai ac yn nodi "This private gated development will be very luxury with each house have access to the water ways for the residents of Quay Side only" Ac hefyd: "Detailed Live Planning Consent for vehicular access, construct of a new footpath</i></p>	<p><i>ochor y llwybyr. Y contractwr wedi derbyn cadarnhad o hyn a bydd toriad yn digwydd cyn diwedd Hydref.</i></p> <p><i>Gweler Argymhellion 2019 sydd yn parhau yn berthnasol.</i></p> <p><i>Yn ogystal:</i></p> <p><i>Y clerc i gyrru'r gwybodaeth at Gyngor Gwynedd a gofyn am eu hymateb ynghylch canlynnol:</i></p> <p><b><i>Angen gwneud Wal y Faenol yn ddiogel – tynnu neu ail-osod cerrig 'coping' rhydd a gwaredu tyfiant ar ben y wal neu all wthio cerrig o'u lle.</i></b></p> <p><i>Angen trafod yr arwyddo efo Cyngor Gwynedd eto..</i></p> <p><i>Ymchwilio i mewn i'r bwriad i adeiladu tai ac yr effaith bosib ar y llwybr.</i></p>
23a	2	<b>Bryn y Waen</b>  <i>Bryn y Waen i Ffordd Pant yr Afallen</i>	6/8/20	DH	<p><i>Llwybr o Bryn y Waen heibio'r mast hefo gormod o dyfiant i gerdded y llwybr. Darn ochr Pant yr Afallen gyda gormod o dyfiant hefyd. Angen ei dorri yn sylweddol</i></p>	<p><i>Angen trafod fel cyngor Cymuned os ydym am weithio i ail agor y llwybyr:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Dim trefniant efo'r contractwr. Cyngor Cymuned angen</i></li> </ul>

					<p>Tyfiant wedi mynd yn wyllt o dan droed. Ychydig yn fwdlyd yn y cae</p> <p>Y llwybr wedi ei ffensio o'r cae sydd hefo'r mast ond mae gordyfiant ar y llwybr. Buasai modd cerdded drwy'r cae yn parallel i'r llwybr o'r giat ym Mryn y Waen ond ddim yn fynediad cyhoeddus. Pe bai'r tyfiant sydd ar y llwybr yn cael ei dorri lawr yn sylweddol, buasai'r mynediad i'r llwybr yn iawn. Bydd angen torri'r tyfiant yn reolaidd er mwyn gallu cario mlaen defnyddio'r llwybr.</p> <p>Dim arwydd pen Pant yr Afallen o'r llwybyr</p> <p>Gormod o dyfiant I gerdded y llwybr</p> <p>Wedi cau gan dyfiant</p> <p>Dim arwyddion i weld wrth Pant yr Afallen</p> <p><b>Mae y llwybyr hwn yn gorffen ar y ffordd osgoi gyda'r opsiwn i groesi y ffordd i ymuno efo llwybyr gerdded arall . Mae croesi y ffordd osgoi yn hynod beryglus.</b></p>	<p>penderfynnu os i ychwanegu i restr gwaith y contractwr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch yr arwydd</li> </ul> <p>Gweler Argymhellion 2019</p> <p><b>Angen trafod diogelwch i gerddwyr ar y ffordd osgoi gyda 'r adran brif-ffyrdd</b></p>
23b	2	<p><b>Penscoins</b></p> <p>Bryn Waen i Penscoins i Coedwig Cefn</p>	6/8/20	DH	<p>Mynedfa yn wael</p> <p>Gor-dyfiant rhwng Bryn y Waen a'r ffordd osgoi. Gordyfiant Sylweddol rhwng y ffordd osgoi a Llwyn onn. Hefyd angen strimio'r darn sydd ar y ffordd osgoi fel bod dim angen cerdded mor agos i'r ffordd</p> <p>Lot o sbwriel ar y ffordd osgoi ac y darnau agos i'r ffordd osgoi</p> <p>Arwyddion yn iawn. OND ar ol croesi ffin Y Felinheli i Landdeiniolen yng Nghoedwig Cefn, mae'r llwybrau yn anodd i'w dilyn gan bod nifer o lwybrau yna ond dim arwyddion. Hefyd</p>	<p>Contractwr am fod yn torri tyfiant cyn diwedd Hydref.</p> <p>Y Clerc i gysylltu efo'r adran brif-ffyrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sbwriel ar ochor y ffordd</li> <li>Gwenuid y rhan yna o'r ffordd osgoi yn saffach i gerddwyr.</li> <li>Strimio darn wrth ochor y ffordd osgoi.</li> </ul> <p>Y clerc i drefnu cyfarfod rhwng aelodau o'r is-grwp a Cyngor Cymuned Llanddeiniolen i drafod</p>

				<p>wedi cael adroddiad gan aelod o'r cyhoedd bod pont wedi disgyn i fewn i'r afon ar ochr Llanddeiniolen</p> <p>Buasai ffens oddeutu 25 metr i warchod cerddwyr o'r cerbydau ar y ffordd osgoi yn lleihau'r risg iechyd a diogelwch. Mae'r darn hwn yn beryg ac ar ben uchaf lle mae 2 lon felly mae ceir yn dod ar gyflymder.</p> <p>Camfa ger ty Llwyn Onn yn llithryg iawn a thyfiant drosto. Camfa ger fferm Cefn yn llithryg ofnadwy hefyd</p> <p>Mae'n lwybr braf iawn ond mae'r darn ar y ffordd osgoi yn beryg. Mae angen ffens neu rhyw fath o 'barrier' yma (dim ond 25-30 metr). Neu torri'r tyfiant a'r coed yn bellach fel bod y llwybr ddim mor agos at y ffordd.</p> <p>Mynedfa yn iawn wrth Bryn y Waen</p> <p>Ychydig o dyfiant rhwng Bryn y Waen ar ffordd osgoi ond ddim yn ddrwg. Angen torri tyfiant rhwng ffordd osgoi a Llwyn Onn.</p> <p>Dim arwyddion wrthy tro I Cefn yn anodd I weld. Ddim yn siwr os fod yna arwydd or ffordd osgoi I gyfeiriad Bryn Waen.</p> <p><b>Eithaf llithrig i lawr at y ffordd osgoi o gyfeiriad Bryn y Waen</b></p> <p>Camfa ger ty Llwyn Onn yn llithryg iawn a thyfiant drosto. Camfa ger fferm Cefn yn llithryg ofnadwy hefyd</p> <p><b>Angen ffens wrth y ffordd osgoi er mwyn diogelwch</b></p>	<p>materion yn ymwneud efo pen Llanddeiniolen o'r llwybyr.</p> <p>Clerc y Cyngor i holi sut medrwn ni neud y camfeydd yn llai llithrig ac i adrodd yn ol er mwyn i'r Cyngor benderfynnu ar y ffordd gorau ymlaen.</p> <p>Gweler argymhellion 2019</p> <p><b>Angen trafod diogelwch i gerddwyr ar y ffordd osgoi gyda 'r adran brif-ffyrdd</b></p> <p>Mae'r contractwr yn credu mai yr adran Brif-ffyrdd sydd yn gyfrifol am y toriad rhwng Llwyn Onn a 'r Ffordd Osgoi. Bydd angen cadarnhad am hyn gan yr adran brif-ffyrdd.</p> <p>Angen trafod yr arwyddo efo Cyngor Gwynedd eto.</p>
--	--	--	--	--	--

24	1	<b>Hen Gei Llechi</b>  Garddfon i Hen Gei Llechi i Stryd Bangor	12/8/20	LIE	<i>Popeth yn iawn</i>  Ychydig o ordyfiant wrth y gwaith trin dwrgwaith trin dwr ac ar ddechrau'r llwybyr.	<i>Dim</i>  Clerc i holi pwy fuasai yn gyfrifol am dorri'r tyfiant yn yr ardal hwn.
<b>LLwybrau sydd ddim wedi eu rhestru gan y Cyngor Sir</b>						
		<b>Cei Steps</b>  Stryd Bangor i Hen Gei Llechi		NJ	<i>Popeth yn iawn</i>  <i>Popeth yn iawn</i>	<i>Dim</i>  <i>Dim</i>
		<b>Lon Las</b>  Pen-y-bryn i Seilo		NJ	<i>Dim newid i 'r sefyllfa ers yr arolwg diwethaf.</i>  <i>Angen arwyddion yn y canlynnol:</i>  <i>Seilo – dros y ffordd i Fourcrosses</i>  <i>Yn dod o gyfeiriad Bangor yn troi i'r chwith am y lon las wrth Ty Hen Stesion</i>  <i>Dim newid i 'r sefyllfa ers yr arolwg diwethaf.</i>  <i>Angen arwyddion yn y canlynnol:</i>  <i>Seilo – dros y ffordd i Fourcrosses</i>  <i>Yn dod o gyfeiriad Bangor yn troi i'r chwith am y lon las wrth Ty Hen Stesion</i>	<i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch yr arwyddo. Trafodwyd y mater mewn cyfarfod 9/10/18</i>  <i>Angen trafod yr arwyddo efo Cyngor Gwynedd eto.</i>
		<b>Rowen Dinas i Lan Mor Rowen</b>		NJ	<i>Angen arwydd o Lon Dinas am Rowen</i>  <i>Gordyfiant. Rhyw olwg bod yna rhywun gwirfoddolwr)wedi bod yn torri rhywfaint o'r tyfiant yn ol. Dal angen rhagor o docio tyfiant yna.</i>  <i>Ffens i'r cae wedi malu ac angen atgyweirio - posib i geffylau yn y cae ddianc yn fy marn i. Lluniau wedi atodi.</i>  <i>Gwirfoddolwyr wedi bod yn casglu sbwriel difrifol yn reoliadd</i>	<i>Y Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd ynghylch yr arwyddo. Trafodwyd y mater mewn cyfarfod 9/10/18</i>  <i>Cyngor Cymuned angen penderfynnu os am ychwanwegu torri tyfiant ar y llwybyr poblogaidd hwn yn y cytundeb efo'r contractwr.</i>  <i>Gofyn i'r clerch gysylltu efo perchennog y tir i atgyweiro'r ffens.</i>  <i>Angen trafod yr arwyddo efo</i>

				<p><i>o'r llwybyr a Lan y Môr.</i></p> <p><i>Angen arwydd o Lon Dinas am Rowen.</i></p> <p><i>Y ffens yn parhau yn flêr ond weirien bigog wedi ei osod i gadw'r anifeiliaid yn y cae.</i></p> <p><i>Gordyfiant yn parhau yn broblem. Nid yw y contractwr wedi derbyn cais i brisio y gwaith hwn.</i></p>	<p><i>Cyngor Gwynedd eto.</i></p> <p><i>Angen cael prisio Gwaith torri tyfiant a threfnu i gontractwr i'w dorri.</i></p>
--	--	--	--	--	--

### Crynodeb

#### Torri tyfiant

Bydd angen cael trydydd toriad pob tymor a threfniadau ariannol y neu lle a fe gyfunwyd ar hyn yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned ym mis Medi 2020.

#### Casglu Sbwriel

Mae parhau efo trefniant i gael gwirfoddolwyr i ymwneud â chasglu sbwriel yn holl bwysig. Efallai bod angen ail-edrych at greu grwpiau o wirfoddolwyr ar gyfer gwahanol lwybrau/ardaloedd o'r pentref.

#### Mynediad

Mae sawl enghraifft o anhawsterau efo mynediad sydd angen eu trafod eto efo Swyddogion Cyngor Gwynedd.

#### Arwyddo

Mae problemau cyson gyda arwyddion. Mi fuasai yn reit hawdd i wella yr arwyddo mewn sawl lle – gwirfoddolwyr yn gosod arwyddion bychan fedr cael eu gosod yn syml (wedi gludo ella?) ar giatau neu stanciau/ coed sydd yn bodoli yn barod. Mae angen trafod efo'r Cyngor Sir sut mae modd datrus y broblem hwn er mwyn gwella rhywfaint ar y sefyllfa gan ei fod yn rhygnu ymlaen ers tro. Y nôd ydi i hwyluso y cerdded o'r llwybrau ac i wneud yn siwr nad yw cerddwyr yn mynd ar dir preifat.

#### Diogelwch

**Mae angen trafodaeth brys gyda Cyngor Gwynedd ynghylch materion a all achosi niwed i'r cyhoedd ar y llwybrau canlynol:**

- **Llwybyr Afon Heulyn (llwybyr 22)**
- **Bryn y Waen i Penscoins (llwybyr 23b)**
- **Bryn y Waen i ben ucha'r Inclein (llwybyr 23a)**
- **Brynffynnon i'r Lon Bôst (llwybrau 16 ac 17)**



